# Galwad am wybodaeth – cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22

Mae pwyllgorau Senedd Cymru yn galw am wybodaeth i gynorthwyo gyda'r gwaith o graffu ar gynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22. Mae gennym ddiddordeb mewn ymchwilio i'r disgwyliadau o ran Cyllideb 2021-22, gan gynnwys parodrwydd ariannol ar gyfer blwyddyn 2021-22 ac effaith Cyllideb 2020-21. Yn ogystal, bydd ffocws ar yr adferiad o ganlyniad i'r pandemig Covid-19 yn effeithio ar Gyllideb Ddrafft 2021-22.

Mae Llywodraeth Cymru fel arfer yn cyhoeddi ei chyllideb ddrafft ym mis Hydref. Bydd oedi eleni, fodd bynnag, oherwydd nid oes gan Lywodraeth Cymru arwydd o gyfanswm y cyllid sydd ar gael nes bod Llywodraeth y DU yn cyhoeddi Cynlluniau Gwariant yr adrannau.

Mae Llywodraeth Cymru fel arfer yn cyhoeddi ei chyllideb ddrafft ym mis Hydref. Bydd oedi eleni, fodd bynnag, oherwydd nid oes gan Lywodraeth Cymru arwydd o gyfanswm y cyllid sydd ar gael nes bod Llywodraeth y DU yn cyhoeddi Adolygiad o'r Gyllideb neu Adolygiad o Wariant..

Mae'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd wedi cyhoeddi bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi'r Cyllidebau amlinellol drafft a'r Cyllidebau manwl drafft gyda'i gilydd ar 8 Rhagfyr 2020, a'r Gyllideb derfynol ar 2 Mawrth 2021.

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn edrych ar gyllideb Llywodraeth Cymru o safbwynt strategol a chyffredinol. Rydym hefyd yn cydweithio â phwyllgorau eraill y Senedd i sicrhau y caiff cynigion ar gyfer adrannau neu bortffolios cabinet penodol eu hystyried yn fanwl. Bydd y pwyllgorau yn cynnal eu sesiynau eu hunain i ganolbwyntio ar dystiolaeth er mwyn edrych yn fanwl ar yr agweddau ar y gyllideb sydd o fewn eu cylchoedd gwaith hwy. Gellir cael manylion pellach am Bwyllgorau'r Senedd a phroses y gyllideb yn Atodiad 1.

Yn y papur hwn, nodir cwestiynau penodol yn Atodiad 2. Gallwch ateb unrhyw un neu bob un o'r cwestiynau, neu gallwch roi gwybod i ni beth yw eich barn yn gyffredinol ar y gyllideb ddrafft.

O gofio'r cyfyngiadau cymdeithasol ar hyn o bryd, nid oedd y Pwyllgor Cyllid yn gallu cynnal ei ddigwyddiad blynyddol i randdeiliaid. Yn lle hynny,

cynhaliodd y Pwyllgor arolygon a chwestiynau ar-lein yn gofyn i'r cyhoedd awgrymu meysydd y dylid eu blaenoriaethu. Mae crynodeb ar gael yma.

## Datgelu gwybodaeth

Mae polisi'r Senedd ynghylch datgelu gwybodaeth i'w weld **yma**. Cofiwch ystyried y manylion hyn yn ofalus cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor. Neu, gellir gwneud cais am gopi caled o'r polisi hwn drwy gysylltu â'r Clerc, Bethan Davies (0300 200 6372 )seneddcyllid@senedd.cymru).

## Darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor

Gwahoddir pawb sydd â diddordeb i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i Glerc y Pwyllgor Cyllid, erbyn **dydd Gwener, 27 Tachwedd 2020**. Os hoffech gyfrannu ond eich bod yn pryderu na fyddwch yn gallu cyflwyno eich tystiolaeth erbyn y dyddiad cau, cysylltwch â Chlerc y Pwyllgor ar 0300 200 6372.

Mae gan Senedd Cymru ddwy iaith swyddogol, sef Cymraeg a Saesneg. Yn unol â Chynllun Ieithoedd Swyddogol y Senedd, mae'r Pwyllgor yn gofyn i ddogfennau neu ymatebion ysgrifenedig i ymgynghoriadau y bwriedir eu cyhoeddi neu eu defnyddio yn nhrafodion y Senedd gael eu cyflwyno yn ddwyieithog. Pan na chaiff dogfennau neu ymatebion ysgrifenedig eu cyflwyno yn ddwyieithog, byddwn yn cyhoeddi yn yr iaith a gyflwynwyd, gan ddweud eu bod wedi dod i law yn yr iaith honno'n unig.

Rydym yn disgwyl i sefydliadau eraill weithredu eu safonau neu eu cynlluniau eu hunain a chydymffurfio â'u rhwymedigaethau statudol.

Yn gywir



**Llyr Gruffydd AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Atodiad 1 – Gwybodaeth gefndir

## Pwy ydym ni?

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn un o bwyllgorau trawsbleidiol Senedd Cymru sy'n cynnwys Aelodau o bob un o'r pedair plaid wleidyddol a gynrychiolir yn y Senedd.

Nid yw'r Pwyllgor yn rhan o Lywodraeth Cymru. Yn hytrach, mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am adrodd ar gynigion a roddwyd gerbron Senedd Cymru gan Weinidogion Cymru sy'n ymwneud â defnyddio adnoddau.

## Pa bwyllgorau eraill sy'n craffu ar y gyllideb?

Y Pwyllgorau eraill sy'n craffu ar y gyllideb yw:

- Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
- Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
- Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
- Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
- Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
- Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
- Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

## Beth yw cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru?

Rhaid i gynigion y gyllideb ddrafft gynnwys manylion ynghylch faint o adnoddau y mae Llywodraeth Cymru yn cynnig eu defnyddio yn ystod y flwyddyn ariannol ddilynol a ffigurau dangosol ar gyfer y ddwy flwyddyn ariannol ar ôl hynny. Yn fwy penodol, dylai amlinellu gwybodaeth ynghylch:

- y defnydd o adnoddau ac arian parod i'w dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Senedd, Archwilio Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
- sut y bydd cynigion gwariant yn cael eu hariannu, gan gynnwys cynlluniau trethiant a benthyca.

- Incwm sydd i’w gadw gan y sefydliadau hynny (yn hytrach na chael ei ildio i Gronfa Gyfunol Cymru).

Disgwylir y bydd Llywodraeth Cymru yn rhyddhau cyllideb ddrafft amlinellol gychwynnol yn nodi cynlluniau gwariant ac ariannu strategol lefel uchel a chyllideb ddrafft fanylach dair wythnos yn ddiweddarach.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu dogfen naratif sy’n nodi dyraniadau o fewn adrannau, sut mae cynigion yn cyd-fynd â blaenoriaethau a’r canlyniadau a ddymunir. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu rhagolygon o drethi, benthyca a dyled.

**Pam nad ydym yn cynnal yr ymgynghoriad hwn ar ôl i gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru gael eu cyhoeddi?**

Ni fydd ymateb i’r ymgynghoriad hwn yn eithrio rhanddeiliaid rhag hefyd ddarparu gwybodaeth, tystiolaeth, pryderon ac awgrymiadau ynghylch meysydd craffu posibl i bwyllgorau Senedd Cymru **ar ôl** i’r cynigion amlinellol neu’r cynigion manwl ynghylch cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru gael eu cyhoeddi.

Mae’r amser sydd ar gael i randdeiliaid awgrymu meysydd pryder ar gyfer pwyllgorau yn brin iawn ar ôl i fanylion y gyllideb ddrafft gael eu cyhoeddi. Wrth ymgynghori yn awr, gobeithiwn y bydd gan randdeiliaid ragor o amser i ystyried effaith bosibl y gyllideb.

# Atodiad 2

## Cwestiynau'r ymgynghoriad

1. Beth, yn eich barn chi, fu effaith cyllideb 2020-21 Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cyllid diweddar sy'n gysylltiedig â COVID-19?
2. Sut ydych chi'n meddwl y dylai blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 newid i ymateb i COVID-19?
3. Pa mor barod yn ariannol yw eich sefydliad ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22, a sut y gall y gyllideb roi rhagor o sicrwydd ichi wrth gynllunio a rheoli cyllidebau o ystyried yr anwadalrwydd a'r ansicrwydd parhaus?
4. O ystyried yr ansicrwydd parhaus a'r amgylchedd cyllido sy'n newid yn gyflym, a ydych chi'n credu y dylid newid y gyllideb a'r prosesau craffu i sicrhau tryloywder ac atebolrwydd Gweinidogol digonol?
5. A yw'r Fframwaith Cyllidol yn adlewyrchu effaith yr argyfwng iechyd cyhoeddus yng Nghymru yn ddigonol o'i gymharu â gwledydd eraill y DU ac a ydych chi'n cefnogi cynyddu'r terfynau blynyddol a / neu gyffredinol i fenthyca cyfredol Llywodraeth Cymru o fewn y Fframwaith hwn.
6. Hoffai'r Pwyllgor ganolbwyntio ar nifer o feysydd penodol wrth graffu ar y gyllideb. A oes gennych chi unrhyw sylwadau penodol ar unrhyw un o'r meysydd a nodir isod, yn enwedig yng ngoleuni'r sefyllfa COVID-19 a sut y dylid adlewyrchu'r rhain yn y Gyllideb ar gyfer 2021-22?
   - *Sut y dylid targedu adnoddau i gefnogi adferiad economaidd a pha sectorau yn benodol y mae angen eu blaenoriaethu.*
   - *I ba raddau y dylid blaenoriaethu lliniaru newid yn yr hinsawdd wrth gefnogi adferiad economaidd.*
   - *Polisïau Llywodraeth Cymru i leihau tlodi ac anghydraddoldeb rhwng y rhywiau.*
   - Dull gweithredu o ran gwariant ataliol a sut y cynrychiolir hyn wrth ddyrannu adnoddau. (Gwariant ataliol = gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau a lliniaru ar y galw am wasanaethau yn y dyfodol, drwy ymyrryd yn gynnar)

- Cynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus, arloesi a thrawsnewid gwasanaethau
- Sut y mae tystiolaeth yn llywio gwaith Llywodraeth Cymru o ran pennu blaenoriaethau a dyrannu'r gyllideb
- Sut y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio pwerau trethu a benthyca.
- *Cefnogaeth i fusnesau. Twf economaidd ac amaethyddiaeth ar ôl i'r cyfnod pontio Ewropeaidd ddod i ben.*
- *Beth yw'r cyfleoedd allweddol i fuddsoddiad y Llywodraeth gefnogi 'ailgodi'n gryfach' (h.y. cefnogi economi a gwasanaethau cyhoeddus sy'n cyflawni'n well yn erbyn y nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).*